Emily Morgan

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Hoffwn i aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr oherwydd byddem yn dwli cael y cyfle i chwarae fy rhan mewn gwneud gwahaniaeth i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rwy'n angerddol dros wirfoddoli ac yn gefnogwr brwd o'r sector gwirfoddol, yn fy mywyd personol a phroffesiynol.

Fel unigolyn ifanc, niwroamrywiol, byddem yn dod ag amrywiaeth o safbwyntiau a syniadau newydd posibl i'r bwrdd. Byddem wrth fy modd yn gallu cynrychioli'r ddau grŵp hyn nad ydynt fel arfer yn cael cynrychiolaeth ddigonol ymhlith ymddiriedolwyr a bod yn llais iddynt.

Mae fy swydd bresennol fel swyddog datblygu gwirfoddoli hefyd yn rhoi mewnwelediad i mi o'r tueddiadau a'r rhwystrau cyfredol y mae mudiadau gwirfoddol lleol yn eu hwynebu'n feunyddiol. Byddai dod â'r wybodaeth hon i'r bwrdd ymddiriedolwyr yn fuddiol i alluogi CGGC i gefnogi ei aelodau a mudiadau gwirfoddol eraill ledled Cymru yn y ffordd orau bosibl.